

Benthyciad tymor byr di-log rhwng £1,000 a £25,000 ar gyfer Perchen-feddianwyr, Landlordiaid, Datblygwyr ac Elusennau i wneud eu cartref yn saff, yn gynnes a/neu'n ddiogel.



BETH SYDD AR GAEL?

benthyciad di-log dewisol o hyd at £25,000 i gynorthwyo perchnogion tai i wella safon eu heiddo.

YMGEISIO

- Isafswm benthyciad o £1,000 hyd at uchafswm o £25,000 ar gyfer pob uned o lety (gan gynnwys ffioedd)
- Cynigir pob benthyciad yn ddi-log, ond bydd yn golygu tâl gweinyddol o 15% o werth y benthyciad, gall hyn gael ei ychwanegu at y benthyciad neu gellir ei dalu ymlaen llaw.
- Mae'r tâl gweinyddol yn cynnwys y canlynol (os oes angen):
 - ⇒ Ffioedd trefnu'r benthyciad
 - ⇒ Ffioedd cyfreithiol
 - ⇒ Ffioedd Cyn Fenthycwyr
 - ⇒ Ffioedd prisiad
 - ⇒ Ffioedd y Gofrestrfa Tir
- Bydd pob benthyciad yn cael ei weinyddu gan gwmni sydd wedi cofrestru â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol i sicrhau bod y benthyciad yn fforddiadwy.
- Gellir defnyddio'r benthyciad ar y cyd â ffynonellau ariannu eraill a allai fod ar gael gan Lywodraeth Cymru neu'r Awdurdod Lleol.
- Uchafswm cymhareb 80% benthyciad i werth - yn seiliedig ar y gwerth ar y farchnad ar hyn o bryd a chyflwr yr eiddo yn cael ei gynnig fel gwarant.
- Bydd pob benthyciad yn cael ei sicrhau fel taliad cyntaf neu ail daliad yn erbyn teitl y Gofrestrfa Tir.

STATWS A GRŴP TARGED

- Mae'r math hwn o gymorth yn **DDEWISOL**.
- Mae'r cymorth hwn ar gael i:
 - Perchen-feddianwyr**
 - Landlordiaid (Unigolion a Chwmnïau)**
 - Datblygwyr (Partneriaethau a Chwmnïau)**
 - Elusennau / Trydydd Sector**
- Nid oes unrhyw hawl awtomatig i'r benthyciad.

AMODAU

- Rhaid i Berchen-feddianwyr ad-dalu'r benthyciad o fewn cyfnod o 10 mlynedd * fan bellaf
** yn amodol i newid*
- Rhaid i Landlordiaid, Datblygwyr ac Elusennau / 3ydd sector ad-dalu'r benthyciad o fewn cyfnod benthyciad o 5 mlynedd fan bellaf.

I ofyn am ffurflen mynegi diddordeb, cysylltwch â ni yn:

Adran Amgylchedd Adeiledig
Gwasanaethau Cynllunio a
Gwarchod y Cyhoedd
Caledfryn
Ffordd y Ffair
Dinbych
LL16 3RJ



01824 706717



housingrenewal@denbighshire.gov.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

